

CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 5ed o Ebrill 2016

Yn bresennol / Present: Cyng Geraint Davies, Cyng Bill Green, Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Daff Davies, Cyng Lewis Davies , Cyng Daniel Evans, Cyng Alun James, Cyng Mary Thomas, Cyng Geraint Hatcher

Ymddiheiriadau/ Apologise: Cyng Euros Davies

Hefyd yn bresenol ar ddiwedd y cyfarfod/Also present at the end of the meeting: Mrs Nans Davies, Mrs Gillian Davies.

Materion Personol/Personal Matters

Llongyfarchwyd aelodau CFFI Llanwenog sef Enfys Hatcher, Luned Mair, Rhys Davies a Ffion Evans ar eu llwyddiant yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymru dros y penwythnos. *Congratulations were extended to members of Llanwenog YFC Enfys Hatcher, Luned Mair, Rhys Davies and Ffion Evans on their success in the Wales Public Speaking competition over the weekend.*

Llongyfarchwyd y Cyng Daff Davies ar ddod yn ddadcu heddiw, merch fach i Andrew a Rhian o'r enw Fflur. *Warm congratulations were extended to Cllr Daff Davies on becoming a grandfather today, a little girl to Andrew and Rhian named Fflur.*

1.	<u>Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests</u> Nid oedd neb yn datgelu buddiant personol. <i>Nobody declared a personal interest.</i>
2.	<u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth yn gywir gan y Cyng. Bill Green ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Gwilym Jenkins. <i>The March minutes were proposed as a true record by Cllr Bill Green and seconded by Cllr Gwilym Jenkins.</i>
3.	<u>Materion yn Codi – Matters Arising</u>
a.	Cae Chwarae Cae Sarn Playing Field – Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar nos Lun y 7fed o Fawrth yn Ysgol Cwrtnewydd a phenderfynodd trigolion pentref Cwrtnewydd eu bod am gadw'r parc a cheisio ei redeg. Mae'r Clerc wedi derbyn y les wrth y Cyngor Sir ond cyn bod y Cyngor Cymuned yn ei arwyddo mae'n rhaid cael contract rhwng y Cyngor Cymuned a Phwyllgor y Cae Chwarae a chael hwnnw wedi ei arwyddo. Mi fydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am gymorth wrth lunio'r contract ac yn ei ddanfôn i'r Cynghorwyr Cymuned gyda chofnodion y cyfarfod nesaf. Mae'r pentrefwyr wedi trefnu Sel Cist Car ar yr 17eg o Ebrill yn ysgol Cwrtnewydd. <i>A public meeting was held on Monday the 7th of March at Cwrtnewydd School and it was decided by the residents of Cwrtnewydd to keep the park and try and run it. The Clerk has received the lease from the County Council, before this can be signed a contract needs to be drawn up between the Community Council and the Park Committee and be signed.</i>

The Clerk will ask the County Council for assistance in drawing up a contract and will send a draft copy to the Community Councillors with the next agenda. The villagers have arranged a car boot sale on the 17th of April at Cwrtnewydd School.

- b. *Cynghrair Ward Llanwenog – Daeth Mrs Nans Davies a Mrs Gillian Davies i’r cyfarfod i esbonio cynlluniau’r mudiad. Maent am greu byrddau dehongli oamgylch y Ward ac am dreialu un bwrdd ym Mhentref Gorsgoch tu allan i Neuadd yr Hafod am ddau reswm, y cyntaf bod yna Neuadd newydd yno ac yn ail eu bod wedi cael sgysiau gyda’r pentrefwyr gyda hanesion diddorol y maent am eu rhoi ar gof a chadw. Mi fydd gan y byrddau elfen ddigidol trwy app QR a fydd yn galluogi i bobl cael mynedfa i storfa ychwanegol o wybodaeth ar ffurf digidol. Mae’r mudiad wedi ymgeisio am grant wrth Cynnal y Cardi. Maent yn agored i unrhyw awgrymiadau o leoliadau posib ar gyfer y byrddau ar draws y ward. Hoffent gael llythyr o gefnogaeth wrth y Cyngor Cymuned. Yn ail mae’r mudiad wedi bod yn meddwl am ddyfodol y dair ysgol yn y ward pan fyddant yn cau mewn ychydig dros flwyddyn, y bwriad yw creu holiadur i gywain gwybodaeth er mwyn ei gyflwyno i’r Cyngor Sir os oes diddordeb eu defnyddio ar gyfer y gymuned. Maent yn cynnal digwyddiad sganio lluniau ddydd Sadwrn hyn y 9fed o Ebrill rhwng 10-3 yn Neuadd yr Hafod lle bydd hen luniau yn cael eu sganio a’i rhoi ar wefan Casgliad y Werin. Roedd pawb yn unfrydol y dyslai’r Cyngor Cymuned gefnogi’r fenter am fyrddau dehongli. Mrs Nans Davies and Mrs Gillian Davies attended the meeting to explain their intentions as an organisation. They wish to create interpretation boards around the Ward, firstly trialling the project in Gorsgoch for two main reasons, firstly that the new hall has recently been opened and secondly several people have provided interesting stories about the history of the village to the organisation in the past. The interpretation board will be positioned outside the hall and will have a digital element known as a QR app where mobile devices can access further information. The organisation have applied for a grant to fund the project from Cynnal y Cardi. They are open to proposals of where the boards could be positioned across the ward. They would like a letter of support from the Community Council to the project. Secondly the organisation have started to think about what will happen to the three primary schools within the ward when they close in just over a years time. They wish to draw up a questionnaire, which Cynnal y Cardi have promised to help with in order to gather information to present to the County Council if there is interest using the school for community purposes. They also advertised an event held this Saturday the 9th of April at Neuadd yr Hafod between 10-3 where old photographs will be scanned and put on ‘Casgliad y Werin’ for digital safekeeping. All were in agreement that the Community Council should support the organisation in their venture for interpretation boards.*

<p>c.</p> <p>d.</p> <p>e.</p>	<p>Baner Drefach Flag - £69.60 (inc VAT and Delivery) – Penderfynwyd bod angen baner newydd a dylsai'r Clerc ei archebu. <i>It was decided that a new flag is needed and that the Clerk should order one.</i></p> <p>Taith Dros Fywyd Walk for Life – 24.4.2016. Mae'r trefniadau yn nwylo'r Cyng Geraint Hatcher ac mi fydd y daith yn dechrau am 10yb o Gefn-Hafod, pawb i ddod a bwyd ar gyfer y bwffet ar ddiwedd y daith. <i>The preparations are in the hands of Cllr Geraint Hatcher and the walk will start at 10am from Cefn-Hafod, everyone to bring food for the buffet at the end of the walk.</i></p> <p>Cofgolofn Drefach War Memorial – Derbyniwyd llythyr wrth ein cyfreithwyr yn esbonio'r newidiadau a wnaed i'r Trosglwyddiant, roedd pawb yn hapus gyda'r newidiadau hynny yw bod hawl gan bawb barcio ym maes parcio'r ysgol ar Sul y Cofio a digwyddiadau eraill yn ymwneud a chofio'r rhyfeloedd. Hefyd os yw'r Cyngor Cymuned am wneud gwaith ar wal y gofgolofn mae'n rhaid cael caniatad wrth y Cyngor Sir cyn cael mynedfa i'r cae tu cefn i lle fydd y gofgolofn yn cael ei leoli. <i>A letter was received from our solicitors explaining the further changes made to the Transfer and everyone was happy with the changes, which were that the school car park will be available for parking on Remembrance Sunday and other UK Armed Forces Commemorative Days only and that the consent of the County Council is required if the Community Council need to maintain the war memorial wall from the field.</i></p>
<p>4.</p>	<p><u>Gohebiaeth – Correspondence</u> Dim Gohebiaeth – No Correspondence</p>
<p>5.</p> <p>a.</p> <p>b.</p>	<p><u>Cyfrifon - Accounts</u></p> <p>Cyfrifon diwedd blwyddyn 2015-2016 End of Year Accounts – Cafwyd adroddiad gan y Clerc o'r cyfrifon diwedd blwyddyn, mi fydd y fantolen yn barod erbyn y cyfarfod nesaf. Mi fydd £1,316.66 yn cael ei gario trwodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. <i>A report was had by the Clerk of the end of year accounts and the balance sheet will be presented in the next meeting. The sum of £1,316.66 will be carried onto the next financial year.</i></p> <p>Cyllideb 2016-2017 Budget – Aethpwyd trwy'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a cynigwyd yn gywir gan y Cyng Mary Thomas ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Daniel Evans. <i>The Clerk went through the budget for this financial year and it was proposed as correct by Cllr Mary Thomas and seconded by Cllr Daniel Evans.</i></p>

<p>6.</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p>	<p><u>Cynllunio - Planning</u></p> <p>A160180 - Dolwen, Llanwenog, Llanybydder - Change of use - Conversion of redundant stone barn to holiday let. Dim Gwrthwynebiad – <i>No Objection.</i></p> <p>A140642 & A140644 – Land adj to Penlan Fawr, Cwpsychbant, Llanybydder Erection of Rural Enterprise Dwelling and Shed – Approved</p> <p>A150038 – Rhosgarn Whilgarn, Talgarreg – Appeal Submitted against Refusal</p>
<p>7.</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p>	<p><u>Unrhyw Fater Arall /Any other business</u></p> <p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 3ydd o Fai am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. <i>It was decided to hold the next meeting on the 3rd of May at 7.30pm at Drefach Village Hall.</i></p> <p>Gofynnodd y Cyng Geraint Hatcher os oedd gan adran Gynllunio Cyngor Sir Ceredigion gofynion amser wrth ymateb i geisiadau cynllunio gan nad oedd Mr a Mrs Bird, Maesyrehydd wedi clywed nôl gan yr adran a methu cael siarad a neb am eu cais sydd wedi ei gyflwyno cyn y nadolig. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn siarad gyda'r ymgeiswyr ac yna'n danfon ebost i'r adran. <i>Cllr Geraint Hatcher asked whether the planning department at Ceredigion County Council have a statutory time period to respond to planning applications as Mr and Mrs Bird, Maesyrehydd have not heard from them and have not been able to speak to anyone since before Christmas. It was decided the Clerk speak to the applicants before sending an email to the department.</i></p> <p>Gofynnodd y Cyng Bill Green beth oedd y diweddaraf ar lamp stryd Mr Holmes yn Alltyblacca, dywedodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda ef drwy lythyr ac yn disgwyl ymateb wrtho. <i>Cllr Bill Green asked what was the latest situation with the street light for Mr Homes in Alltyblacca, the Clerk stated that she had sent him a letter and is awaiting a response.</i></p>

Arwyddwyd:.....

Dyddiad:.....